Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 6ed o Fehefin 2019.

1 Presennol – Edward Evans (Cadeirydd) Richard Parry – Bryncir, John Jones, Clifford Williams, Anwen Humphreys – Garndolbenmaen, Richard Williams Gwilym Evans – Prenteg, Huw Pritchard – Pentrefelin, Megan Ll Williams – Golan, Dafydd Thomas, Gwenno Huws – Penmorfa, Cynghorydd Stephen Churchman, Cynghorydd Alwyn Gruffydd.

2 Ymddiheuriadau – Delyth Evans, Amanda N Owen

3 Ddim yn bresennol- neb.

4 Datgan buddiant – neb

5 Cywirdeb y cyn-gofnodion – 2/5/19 Dafydd Thomas yn datgan eu cywirdeb a Clifford Williams yn eilio.

6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion

Materion ail gylchu Garndolbenmaen a Phrenteg - Derbyniwyd ateb gan yr Adran Gorfodaeth Stryd yn ymddiheuro am beidio ymateb yn gynt i gais y Cyngor Cymuned. Cadarnhawyd fod Swyddog Gorfodaeth wedi ymweld â'r ardaloedd ac o'r farn nad oedd llawer o broblem. Trafodwyd fod y sefyllfa yn iawn ym Mhrenteg, ond nid oes gwelliant yng Ngarndolbenmaen. Clerc i hysbysu'r Adran Gorfodaeth Stryd o hyn.

Llwybr Rhif 90 Pant Rhedyn – Tŷ Mawr – drain yn cau'r llwybr. Mae Uwch Swyddog Tramwy Cyngor Gwynedd wedi trefnu i wirfoddolwyr glirio'r llwybr ar yr 2il o Orffennaf.

Lloches Bws Pentrefelin - heb dderbyn ateb gan Gyngor Gwynedd.

7 Mynwentydd

Eglwys Cwm Pennant - derbyniwyd e-bost gan yr Eglwys yng Nghymru i ddweud fod y gwaith atgyweirio ar yr Eglwys wedi cael ei gwblhau. Diolchwyd i'r Cyngor Cymuned am ganiatáu mynediad i'r adeilad.

Mynwent Bethel - adroddwyd mai traean o'r fynwent cafodd ei dorri yn ystod mis Mai.

Arwyddion - penderfynwyd edrych ar y rhai sydd yno'n barod.

Materion cynnal a chadw Mynwentydd Bethel, Cwm Pennant a Phenmorfa - Clerc i gysylltu gyda Dylan Edwards.

8 Llwybrau Cyhoeddus

Dim i'w adrodd.

9 Adroddiad Pentrefi

Prenteg

Rheilffordd Eryri - golau gwyn ar y platfform, sydd yn y tywyllwch, yn ymddangos fod cerbyd yn dod o'r cyfeiriad arall. Clerc i gysylltu i holi os yw'n bosib i'w ddiffodd gyda'r nos.

Garndolbenmaen

Er gwybodaeth - eiddo wedi ei werthu yn ddiweddar fydd yn dai haf. Trafodwyd nad yw'n bosib i'r Cyngor Cymuned weithredu ar hyn, nes bydd newid yn y gyfraith.

Parcio

Mae ceir yn parcio pob ochor i'r lon rhwng Penbont a Nant Heddwch. O ganlyniad, nid yw cerbydau mawr yn gallu pasio ei gilydd. Clerc i gysylltu gyda Gwasanaeth Trafnidiaeth Cyngor Gwynedd.

Penmorfa

Cae Chwarae Penmorfa - Adroddwyd fod y Pwyllgor yn awyddus i wneud cais i'r Cynulliad am grant i brynu offer. Rhaid i'r cais gael ei wneud gan berchnogion/ymddiriedolwyr y tir. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu gyda Chyngor Cymuned Llanllyfni i holi os ydynt wedi gwneud cais tebyg.

10 Cyfrifon 2018 - 2019

Cyflwynwyd copi o'r cyfrifon i'r Cyngor a'r rhan gyntaf o'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer yr archwiliad allanol. Adroddwyd fod y derbyniadau am

2018 -19 yn fwy na 2017 - 18. Yn ystod y flwyddyn cafwyd mwy o gladdedigaethau a cafwyd cynnydd o £2000 yn y praesept.

Taliadau yn llai o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Hyn yn rhannol oherwydd roedd llai o wariant ar y Mynwentydd, hysbysebu a deunyddiau.

Derbyniwyd y cyfrifon gan y Cyngor. Arwyddwyd y Ffurflen Flynyddol gan y Cadeirydd a'r Clerc.

11 Pwyllgorau

Penodwyd aelodau i Is-bwyllgorau'r Cyngor.

Cyllid a Llywodraethiant.
Mynwentydd.
Llwybrau Cyhoeddus.
Eiddo.

Penderfynwyd –

- y byddai'r Is-bwyllgorau yn cyfarfod cyn y cyfarfod misol;
- pa fis y byddai pob Is-bwyllgor yn cyfarfod;
- cyfrifoldeb yr aelod etholedig yw trefnu dirprwy os nad ydynt yn gallu bod yn bresennol.

12 Ymddiswyddiad Cynghorydd

Derbyniodd y Clerc alwad ffôn gan Maldwyn Owen yn hysbysu'r Cyngor o'i fwriad i sefyll lawr o'i sedd. Clerc i yrru llythyr i ddiolch iddo am ei wasanaeth a hefyd cysylltu gyda Swyddog Etholiadau Cyngor Gwynedd i hysbysebu'r sedd wag.

13 Gohebiaeth
Llythyrau gan Cyngor Gwynedd – Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd Mai 2019. Gyrrwyd at Gynghorwyr Penmorfa a Phrenteg.
Ychwanegwyd Rhaglen Waith Mehefin 2019 Ailwynebu Cylch Golan.

Gohebiaeth ychwanegol

a Unllais Cymru – Model Brotocol ar gyfer datrysiadau anffurfiol. Penderfynwyd mabwysiadu hwn. Richard Parry yn cynnig a Gwilym Evans yn eilio.

b Cyngor Iechyd Cymru Datganiad Newyddion – Gwersi a ddysgwyd o adolygiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

14 Cynllunio

Rhestrau 7/5, 13/5, 20/5, 24/5 Ychwanegwyd 3/6/19.

Ceisiadau Cynllunio

NP2/16/451 Cais amlinellol i godi tŷ Pen y Bryn, Penmorfa, Porthmadog. Dyddiad cau 1/6/19. Gwrthwynebwyd.

C19/0460/36/LL Cais ar gyfer tynnu amodau 13 a 16 o ganiatad cynllunio C06D/0527/36/LL sy'n cyfyngu defnydd yr uned fel uned wyliau yn unig. Tyddyn Iolyn, Pentrefelin. LL52 0RB Cais wedi ei dynnu'n ôl.

15 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian: Canolfan Therapi Plant Cymru. Trafod yn Chwefror 2020.

Monitro'r gyllideb: Dim gorwariant yn erbyn y gyllideb a osodwyd.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	=	£237.99
Ffôn	=	£ 10.00
Cyfrifiadur	=	£ 15.00
HMRC	=	£ 59.40
Swyddfa Archwilio Cymru	=	£403.05
Ychwanegwyd:		
Gwasg y Bwthyn	=	£ 12.24
Aled Jones	=	£ 75.00

Derbyniadau: Cyngor Gwynedd Praesept £9000.

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,801.00 Cyfredol £11,526.27

16 Dewis gohebiaeth i fynd i'r wasg/gwefan

- Cyfrifon
- Seddau gwag ar y Cyngor

- Parcio yng Ngarndolbenmaen

Gwefan – Cofnodion, Hysbyseb seddau gwag, Hysbysiad Archwilio Cyfrifon.